



Lois Jones

Oed: 22

Lleoliad: Pentrefelin

Enw Busnes: Cwmni Sôs Coch Company

✉ sales@soscoch.com
loisjones@live.co.uk

☎ 07511824623

Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?

I fod yn onest, oedd dechrau busnes fy hun yn rhywbeth oni byth yn meddwl byswn i'n neud ag erioed wedi apelio ata i. Ond, oedda' ni ar wylia yn Gernyw ychydig o flynyddoedd yn ôl a welsom ni sôs coch "The Cornish Ketchup Company" ar y bwrdd pan aethom allan am fwyd, a wnaeth 'na rhywbeth jyst clicio yn ein pennau ag oedda' ni'n cwstyynu sut does 'na ddim sôs coch Cymreig! A fama ydw i wan, yn *trio* creu Sôs Coch Cymreig fy hyn! - Sôs Coch.

Sut mae Llwyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?

Oni bai am gynllun Llwyddo'n Lleol fyswn i BYTH wedi dechrau'r busnes. Pryd dechreuais y cynllun, doeddwn i ddim yn gwybod be i ddisgwyl ag oeddwn i'n meddwl byswn i ddim yn cael llawer allan ohono. Ond, mae o'n un o'r pethau gorau dwi wedi'i neud oherwydd dwi 'di actsiyli dechrau busnes fy hun all ohono! Un o'r pethau gorau am y cynllun ydi gwybod bod 'na chriw o bobl sydd yn yr un sefyllfa a chdi ag dwi wedi mwynhau dod i nabod pawb a rhannu hints a tips efo'n gilydd. Yn ogystal mae Elen, Jade a Geraint wedi bod yn mor gefnogol trwy'r broses ac wedi helpu pob un ohonom ar hyd y ffordd.

Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?

I fod yn onest, dwi mewn tipyn bach o dwll. Ar y foment dwi'n trio gweithio allan os fysa'n well A) lansio'r cynnyrch mor fuan ag sydd yn bosib gan ddefnyddio rysâit fy hun ond sydd ddim yn defnyddio tomatos Cymreig, ond a fydd wedi cael ei greu yng Nghymru. Neu B) Aros a chreu proses sydd yn fy ngalluogi i ddefnyddio tomatos Cymreig yn y rysâit trwy greu past tomato fy hun. Gydag opsiwn A, fyswn i yn gallu datblygu'r rysâit fel mae'r busnes yn tyfu i gynnwys past tomato fy hun drwy ddefnyddio tomatos Cymreig. Ond, mae opsiwn B yn eistedd yn well efo fi oherwydd mae'n bwysig i mi fod y cynnyrch yn dathlu a hyrwyddo Cymru cymaint â phosib. Gennai dipyn o feddwl i neud!

Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth berosn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?

EWCH AMDANI. Da' chi efo ddim byd i'w golli!!

@soscoch

